Personâu defnyddwyr

# Buddion i Gyflenwyr



## Mae buddion TXGB yn amrywio yn ôl anghenion y cyflenwr, y dechnoleg sydd ganddynt a'u sefyllfa archebu ar-lein.

Rydym yn diffinio cyflenwr twristiaeth fel unrhyw fusnes sydd â chynnyrch twristiaeth i'w werthu. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar dwristiaeth, gan gynnwys llety, atyniadau, gweithgareddau, teithiau a digwyddiadau.



Enghreifftiau o bersonâu

# Cyflenwyr Twristiaeth



**01** “Mae gen i system sydd wedi'i chysylltu â TXGB eisoes, ac rwy'n ei defnyddio i gysylltu â sianeli gwerthu trydydd parti eraill ...”

**02** “Mae gen i system sydd wedi'i chysylltu â sianeli gwerthu trydydd parti eraill eisoes, ond dydy hi ddim wedi'i chysylltu â TXGB...”

**03** “Mae gen i system rwy'n ei defnyddio i reoli archebion a fy ngwefan fy hun, ond does gan y rhain ddim ffordd o gysylltu â sianeli gwerthu trydydd parti...”

**04** “Dwi'n rheoli fy holl archebion ar wefan asiant teithio ar-lein, e.e. Booking.com, AirBnB, TripAdvisor ac ati...”


**05** “Mae archebu ar-lein yn newydd i mi a does gen i ddim system archebu na ffordd o gymryd archebion ar fy ngwefan fy hun (neu does gen i ddim gwefan)...”

Steve | Hills B&Bs

# 01 Persona

Mae gen i system sydd wedi'i chysylltu â TXGB eisoes, ac rwy'n ei defnyddio i gysylltu â sianeli gwerthu trydydd parti eraill...





..felly gallwch ddefnyddio TXGB i gysylltu'n uniongyrchol â'ch system chi er mwyn cyrraedd mwy o gwsmeriaid a gwerthu mwy. Bydd mwy o sianeli gwerthu ar gael i chi a bydd modd archebu eich cynhyrchion drwy ymgyrchoedd marchnata cyrchfannau cenedlaethol a rhanbarthol.

Steve | Hills B&Bs

# 01 Persona



- Gallwch gysylltu'n rhwydd â TXGB drwy system archebu bresennol a rhannu manylion eich darpariaeth (h.y. argaeledd, cynnwys a phrisiau) gyda thrydydd partïon drwy gysylltiad dwyffordd amser real.
- Nid ydych yn talu nes eich bod yn cymryd archeb! Nid oes ffïoedd sefydlu na thanysgrifio, dim ond ffi archebu 2.5% (heb TAW) i'w thalu pan fyddwch yn cymryd archeb.
- Mae'r broses sefydlu'n syml ac mae'n integreiddio'n rhwydd â'ch arferion gwaith cyfredol, heb darfu arnynt.
- Cewch ddewis a ydych am weithio gydag unrhyw sianeli gwerthu drwy TXGB ai peidio. Nid oes rhwymedigaethau o ran hynny.
- Cewch fynediad at sianeli unigryw sydd ar gael drwy TXGB yn unig. Mae hyn yn cynnwys opsiynau comisiwn is er mwyn cyrraedd mwy o bobl, gan gynnwys eich gwefan cyrchfannau lleol.
- Ceir nifer fawr o sianeli talu uniongyrchol, felly gallwch feithrin a chynnal perthynas gyda'r defnyddiwr, a diffinio eich telerau ac amodau eich hunain.

Lisa | Wild Walks

# 02 Persona

Mae gen i system sydd wedi'i chysylltu â sianeli gwerthu trydydd parti eraill eisoes, ond dydy hi ddim wedi'i chysylltu â TXGB...





**...felly defnyddiwch TXGB i gysylltu'n uniongyrchol â'ch system chi, er mwyn cyrraedd mwy o gwsmeriaid a gwerthu mwy. Drwy TXGB, bydd mwy o sianeli dosbarthu ar gael ichi a bydd modd i bobl archebu eich cynhyrchion drwy ymgyrchoedd marchnata cyrchfannau cenedlaethol a rhanbarthol.**

Lisa | Wild Walks

# 02 Persona


- Hyd yn oed os nad yw'r Cyfnewidfa Twristaeth (Tourism Exchange) yn cysylltu â'ch system ar hyn o bryd, bydd yn dal yn bosib ichi ddefnyddio'r adnodd llwytho stocrestr sydd wedi'i osod, sef TXLoad.
- Gallwch lwytho cynhyrchion yn rhwydd yn uniongyrchol i TXGB, fel nad ydych yn colli cyfleoedd unigryw tra eich bod yn aros i'ch system chi gael ei chysylltu.
- Cewch ddewis a ydych am weithio gydag unrhyw sianeli gwerthu drwy TXGB ai peidio. Nid oes rhwymedigaethau o ran hynny.
- Cewch fynediad at sianeli unigryw sydd ar gael drwy TXGB yn unig. Mae hyn yn cynnwys opsiynau comisiwn is er mwyn cyrraedd mwy o bobl, gan gynnwys eich gwefan cyrchfannau lleol.
- Nid ydych yn talu nes eich bod yn cymryd archeb! Nid oes ffïoedd sefydlu na thanysgrifio, dim ond ffi archebu 2.5% (heb TAW) i'w thalu pan fyddwch yn cymryd archeb.
- Ceir nifer fawr o sianeli talu uniongyrchol, felly gallwch feithrin a chynnal perthynas gyda'r defnyddiwr, a diffinio eich telerau ac amodau eich hunain.

Andy | Starry Skies

# 03 Persona

Mae gen i system rwy’n ei defnyddio i reoli archebion a fy ngwefan fy hun, ond does gan y rhain ddim ffordd o gysylltu â sianeli gwerthu trydydd parti...





**...felly defnyddiwch y Tourism Exchange i ddosbarthu cynhyrchion drwy’r holl sianeli gwerthu o un lle. Fel hyn, bydd mwy o ddosbarthwyr ar gael ichi, heb ichi orfod cynyddu’r gwaith gweinyddol neu’r risg. Byddwch yn cyrraedd cwsmeriaid newydd a gallwch gymryd rhan mewn ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol a rhanbarthol.**

Andy | Starry Skies

# 03 Persona



- Os nad yw eich system archebu yn cysylltu eich dyddiadur â asiantaethau teithio ar-lein trydydd parti, efallai eich bod chi'n ei chael hi'n anodd rheoli sawl dyddiadur archebu ar-lein ar hyn o bryd, a bod hynny'n arwain at lawer o waith gweinyddol a risg o gael archebion yn gwrthdaro.
- Mae TXGB yn cynnig adnodd rheoli archebion syml, rhad ac am ddim y gellir ei ddefnyddio i lwytho stocrestr a rheoli eich dyddiadur (TXLoad). Nid oes ffioedd sefydlu na thanysgrifio, dim ond ffi archebu 2.5% (heb TAW) i'w thalu pan fyddwch yn cymryd archeb.
- Gall y datrysiad hwn ganoli eich archebion trydydd parti mewn un system dyddiadur y gellir ei hallgludo wedyn drwy ddefnyddio iCal.
- Cewch ddewis a ydych am weithio gydag unrhyw sianeli gwerthu drwy TXGB ai peidio. Nid oes rhwymedigaethau o ran hynny.
- Cewch fynediad at sianeli unigryw sydd ar gael drwy TXGB yn unig. Mae hyn yn cynnwys opsiynau comisiwn is er mwyn cyrraedd mwy o bobl, gan gynnwys eich gwefan cyrchfannau lleol.
- Ceir nifer fawr o opsiynau talu uniongyrchol, felly gallwch gynnal y berthynas gyda'r defnyddiwr, a diffinio eich telerau ac amodau eich hunain.

Debbie | The Castle Inn

# 04 Persona

Dwi'n rheoli fy holl archebion ar wefan asiant teithio ar-lein, e.e. Booking.com, AirBnB, TripAdvisor ac ati...





**...felly gallwch ddefnyddio TXGB i ddosbarthu eich cynhyrchion drwy sawl sianel werthu y gallwch eu dewis o un lle canolog. Fel hyn, bydd mwy o ddosbarthwyr ar gael ichi, heb ichi orfod cynyddu'r gwaith gweinyddol neu'r risg. Byddwch yn cyrraedd cwsmeriaid newydd a gallwch gymryd rhan mewn ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol a rhanbarthol.**

Debbie | The Castle Inn

# 04 Persona




- Os ydych yn gweithio gydag un asiant teithio ar-lein yn unig, gall hynny gyfyngu ar nifer y defnyddwyr sy'n gweld eich cynnyrch a gall olygu rheoli mwy nag un dyddiadur.
- Mae'n bosib eich bod yn colli'r cyfle i gael archebion uniongyrchol cost isel gan eich bod yn rheoli archebion drwy asiantaethau teithio ar-lein trydydd parti yn unig ac yn talu cyfraddau comisiwn uchel.
- Mae TXGB yn cynnig adnodd rheoli archebion syml, rhad ac am ddim y gellir ei ddefnyddio i lwytho stocrestr a rheoli eich dyddiadur (TXLoad). Nid oes ffïoedd sefydlu na thanysgrifio, dim ond ffi archebu 2.5% (heb TAW) i'w thalu pan fyddwch yn cymryd archeb.
- Tudalennau archebu am ddim, y gallwch eu teilwra a'u cysylltu'n rhwydd â'ch gwefan, cyfryngau cymdeithasol neu negeseuon e-bost eich hun.
- Gallwch gysylltu â'ch sianeli gwerthu trydydd parti er mwyn gallu rheoli popeth o un lle ac osgoi gwaith gweinyddol ychwanegol neu'r risg o gael archebion yn gwrthdaro.
- Cewch fynediad at sianeli unigryw sydd ar gael drwy TXGB yn unig. Mae hyn yn cynnwys opsiynau comisiwn is er mwyn cyrraedd mwy o bobl, gan gynnwys eich gwefan cyrchfannau lleol.
- Cewch ddewis o nifer fawr o opsiynau talu uniongyrchol, felly gallwch gynnal y berthynas gyda'r defnyddiwr, a diffinio eich telerau ac amodau eich hunain.
- Cewch ddewis a ydych am weithio gydag unrhyw sianeli gwerthu drwy TXGB ai peidio. Nid oes rhwymedigaethau o ran hynny.
- Mae cymorth am ddim ar gael yn rhwydd gan dîm Llwyddiant Cwsmeriaid TXGB.

Amber | GoKartz

# 05 Persona

Mae archebu ar-lein yn newydd i mi a does gen i ddim system archebu na ffordd o gymryd archebion ar fy ngwefan fy hun (neu does gen i ddim gwefan)...





...felly gallwch ddefnyddio TXGB i sefydlu system archebu ar-lein am y tro cyntaf am ddim. Bydd yn eich galluogi i gymryd archebion ar eich gwefan neu eich proffiliau cyfryngau cymdeithasol eich hun a chysylltu â sianeli gwerthu trydydd parti, gan gynnwys cyfleoedd unigryw i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol a rhanbarthol.

Amber | GoKartz

# 05 Persona



- Efallai eich bod yn colli'r cyfle i gael archebion uniongyrchol oherwydd nad yw defnyddwyr yn gallu mynd yn syth o'r cam edrych i'r cam archebu.
- Mae TXGB yn cynnig adnodd rheoli archebion syml, rhad ac am ddim y gellir ei ddefnyddio i lwytho stocrestr a rheoli eich dyddiadur (TXLoad).
- Nid ydych yn talu nes eich bod yn cymryd archeb! Nid oes ffioedd sefydlu na thanysgrifio, dim ond ffi archebu 2.5% (heb TAW) i'w thalu pan fyddwch yn cymryd archeb.
- Tudalennau archebu am ddim, y gallwch eu teilwra a'u cysylltu'n rhwydd â'ch gwefan, cyfryngau cymdeithasol neu negeseuon e-bost eich hun.
- Mae'n cysylltu â sianeli gwerthu trydydd parti fel y gallwch reoli popeth o un lle ac osgoi gwaith gweinyddol ychwanegol neu'r risg o gael archebion yn gwrthdaro.
- Cewch fynediad at sianeli unigryw sydd ar gael drwy TXGB yn unig. Mae hyn yn cynnwys opsiynau comisiwn is er mwyn cyrraedd mwy o bobl, gan gynnwys eich gwefan cyrchfannau lleol.
- Cymorth cynefino am ddim gan dîm Llwyddiant Cwsmeriaid TXGB.
- Cewch ddewis a ydych am weithio gydag unrhyw sianeli gwerthu drwy TXGB ai peidio. Nid oes rhwymedigaethau o ran hynny.
- Ceir nifer fawr o opsiynau talu uniongyrchol, felly gallwch gynnal y berthynas gyda'r defnyddiwr, a diffinio eich telerau ac amodau eich hunain.

# Ewch amdani

Drwy TXGB, gallwch reoli argaeledd, prisiau ac archebion yn rhwydd ar draws nifer o sianeli gwerthu, o un gyfnewidfa ganolog.

**www.txgb.co.uk**



Ffoniwch ni
**0330 223 5050**

Amseroedd agor
Llun – Gwener (9am - 5pm)
Sadwrn – Sul (Ar gau)

E-bost
**hello@txgb.co.uk**